Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 09.12.2022

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## CYFLE: Magnox yn chwilio am gyflenwyr ar gyfer prosiect dymchwel ar Safle Trawsfynydd

Mae Magnox Limited yn gwahodd cyflenwyr i gydweithio ar brosiect dymchwel sylweddol yn ei Safle yn Nhrawsfynydd i leihau uchder adeiladau adweithydd 55 metr o uchder y safle o tua thraean. Gwahoddir cwmnïau sydd â diddordeb i ymuno â gweminar ar 15 Rhagfyr 2022 i gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, ewch i:

https://bit.ly/3iFaczT

## COVID-19: Brechlynnau atgyfnerthu COVID-19 a ffliw

Dylai pawb sy'n gymwys fod wedi derbyn gwahoddiad erbyn hyn ar gyfer y brechlyn atgyfnerthu COVID-19 yn yr hydref yn ogystal â'r brechlyn ffliw. Gall busnesau helpu trwy annog staff sy'n gymwys i gael eu brechu a chaniatáu amser i ffwrdd iddynt fynd i'w hapwyntiad. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://bit.ly/3Blykya

# AROLWG: Sut gallwn ni ddal ati i wneud ein bwletinau busnes yn well, ac a hoffech weld Wythnos Busnes Gwynedd yn dychwelyd?

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella a sicrhau eich bod yn cael yr help sydd ei angen arnoch. Rhowch wybod i ni sut y gallwn wneud ein bwletinau busnes hyd yn oed yn well ac os hoffech weld Wythnos Busnes Gwynedd yn dychwelyd yn 2023 trwy ateb cwpl o gwestiynau cyflym – ewch i:

https://bit.ly/ArolwgCefnogiBusnesGwyneddBusinessSupportSurvey

# CYFLE: Galwad Agored – Pobl creadigol Gwynedd

Mae cynllun diweddaraf Arloesi Gwynedd Wledig yn cydweithio â dwy gymuned yng Ngwynedd, sef Llandwrog a Llanystumdwy, i wella mynediad at gynnyrch lleol, ac maent wedi comisiynu dau gwt i gael eu hadeiladu a'u lleoli tu allan i dafarndai'r pentrefi, er mwyn gwerthu cynnyrch lleol. Maent yn edrych am berson(au) creadigol byddai'n medru gwneud y cytiau i edrych mor ddeniadol â phosib. Gellir gwneud ceisiadau trwy e-bost at: betsan@mentermon.com a'r dyddiad cau yw 5:00pm 15 Rhagfyr 2022. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/galwad-agored-addurno-cwt/

# AROLWG: Porth Bangor – Ardal yr Orsaf Drenau

Mae Trafnidiaeth Cymru, ochr yn ochr â Chyngor Gwynedd, wedi nodi cyfle yng Ngorsaf Bangor i wella'r croeso i Ddinas Bangor, a gwella'r broses o gyfnewid gyda dulliau teithio ymlaen. Gofynnir am farn ar y

profiadau presennol o’r croeso a’r gyfnewidfa a ddarperir yng Ngorsaf Bangor, fel bod modd datblygu cynlluniau gwella. I gymryd rhan yn yr arolwg byr yma, ewch i:

https://dweudeichdweud.trc.cymru/porth-bangor

## DIGIDOL: Cyflymu Cymru i Fusnesau – Gweminarau am ddim

Mae gan Cyflymu Cymru i Fusnesau ystod o weminarau rhad ac am ddim yn yr wythnosau nesaf yn cynnig cyngor ymarferol ar redeg busnes ar-lein, marchnata digidol a chystadlu ar-lein. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

## NEWYDDION: Newyddlen FSB

Mae newyddlen diweddaraf FSB Business Bitesize ar gyfer Gogledd Cymru ar gael ar:

https://bit.ly/3iOojDi

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru